# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 12 MEHEFIN 2020

**TEITL:** *Penawdau'r Telerau*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno fersiwn wedi'i lofnodi o'r cytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

1.2. Paratowyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig a'r Cynllun Gweithredu, sydd wedi derbyn cefnogaeth a chymeradwyaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn nodi bod Penawdau'r Telerau wedi'u cwblhau.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Drafftiwyd Cytundeb Penawdau'r Telerau gan y ddwy Lywodraeth yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig ac yn unol â'r cynnig gan y Bwrdd Uchelgais o fewn y Cynllun Gweithredu.

4.2. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi trafod a chymeradwyo'r cytundeb Penawdau'r Telerau drafft yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 26 Gorffennaf a 6 Medi. Gwnaethpwyd nifer o ddiwygiadau technegol i fersiwn derfynol y Penawdau'r Telerau dan bwerau dirprwyedig.

4.3. Llofnodwyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau gan gynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais (Cyng Dyfrig Siencyn a Cyng Mark Pritchard) a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar 4 Tachwedd 2019.

4.4. Llofnodwyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau gan weddill cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais (Cyng Llinos Medi, Cyng Ian Roberts, Cyng Sam Rowlands a Chyng Hugh Evans) yn ystod cyfarfod ar 15 Tachwedd 2019.

4.5. Atodir copi o'r Penawdau'r Telerau terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ***Atodiad 1***.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cytundeb Penawdau'r Telerau |

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Roedd cwblhau y Penawdau Telerau yn cynrychioli carreg filltir allweddol ar gyfer y Cynllun Twf ac ern ad yw yn ymrwymo yn gyfreithiol mae’n cynrychioli ymroddiad gan y partïon i gyd i ddarparu’r adnoddau a chyflawni y Cynllun Twf. Fel y datgenir yn yr adroddiad deilliodd y cwblhau o gytundeb ynglŷn a’r strategaethau allweddol ac ymrwymiadau ar draws y rhanbarth oedd yn caniatáu i’r Arweinyddion arwyddo’r ddogfen. Mae’n darparu llwyfan I symud ymlaen i’r Cytundeb Twf Terfynol , Cytundeb Llywodraethu 2 a chyflawni rhaglenni y Cynllun Twf.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

‘‘Mae’r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi croesawu fersiwn diwygiedig y Penawdau’r Telerau drafft yn flaenorol, ac ers hynny mae wedi’i derfynu a’i lofnodi gan yr holl bartïon. Fe wnaeth y Llywodraethau gytuno i rai o’n ceisiadau yn y fersiwn terfynol a gyflwynir yma, a bellach rydym yn bwrw ymlaen tuag at ffurfioli’r Cynllun Twf. Bydd y telerau terfynol i ddilyn yng “Nghytundeb y Cynllun Twf”, sy’n gytundeb cyfreithiol-orfodol, yn ddarostyngedig i adolygiad cynhwysfawr, wrth gwrs.”